Urdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Tiwtor / Asesydd Gofal Plant (Adran Prentisiaethau)** |
| **Math o gontract:** | **Llawn amser (35 awr yr wythnos)** |
| **Graddfa:** | **Graddfa 4: £24,477 (Pwynt 1) - £27,401 (Pwynt 4)** |
| **Lleoliad:** | **Ystyriwn geisiadau o ardraws Gymru** |

## Amdanom ni

Mae'r Urdd yn fudiad sy'n parhau i dyfu ac arloesi, ac yn un o'r cyflogwyr mwyaf sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg. Fe sefydlwyd yn 1922, ac erbyn heddiw cyflogir dros 300 o staff, bron 55,000 o aelodau, 10,000 o wirfoddolwyr a throsiant o £10m. Byddwn yn dathlu ein pen-blwydd yn 100 yn 2022 gan weithio gydag ein haelodau a'n gwirfoddolwyr ynghyd ac amryw o bartneriaid sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, S4C, BBC, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Stonewall Cymru, Chwaraeon Cymru, Ysgolion a Cholegau Cymru.

## Y Swydd

Mae Adran Prentisiaethau'r Urdd yn chwilio am unigolyn brwdfrydig, profiadol, a chymwys i ymuno â'r Adran Prentisiaethau fel Tiwtor / Asesydd Gofal Plant.
Am fwy o fanylion, cysylltwch â Catrin Davis (Pennaeth Prentisiaethau) neu Gary Lewis (Cyfarwyddwr Chwaraeon a Phrentisiaethau).
catrindavis@urdd.org
gary@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 14/03/22
Dyddiad Cyfweld – i'w gadarnhau

| DISGRIFIAD SWYDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Tiwtor / Asesydd** | **Lleoliad:** | **Ystyriwn geisiadau o ardraws Gymru** |
| **Adran:** | **Adran Prentisiaethau** | **Rheolaeth Llinell:** | **Dim** |
| **Yn adrodd i :** | **Pennaeth Prentisiaethau** | **Graddfa:** | **G4: £24,477 - £27,401** |

**Prif bwrpas y swydd:**

Yn dilyn llwyddiannau Adran Brentisiaethau'r Urdd, edrychom i lansio ein Rhaglen Prentisiaethau Gofal Plant yn gynnar yn 2022.

Bydd y swydd hon yn un allweddol er mwyn darparu dysgu, addysgu ac asesu o'r safon uchaf i brentisiaid Gofal Plant.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

1. Asesu, tiwtora a chefnogi'r dysgwyr gan sicrhau ei bod yn cyrraedd safon o'r lefel uchaf.
2. Ymweld â'ch carfan o ddysgwyr yn rheolaidd dros TEAMS ac yn y gweithle
3. Asesu cymwysterau Gofal Plant Lefel 2 a 3, gan sicrhau bod y gwaith asesu yn digwydd mewn da bryd.
4. Mewn cydweithrediad gyda'r Rheolwr Rhaglennu Gofal Plant, creu deunydd ac adnoddau dysgu addas
5. Cynnal cofnodion cyrhaeddiad dysgwyr
6. Cynnal adolygiadau rheolaidd gyda dysgwyr a rhannu gwybodaeth addas gyda chyflogwyr yn fisol.
7. Defnyddio technoleg a meddalwedd addas i hybu cyrhaeddiad dysgwyr
8. Diweddaru a chynnal Cynllun Unigol Dysgwyr
9. Mynychu cyfarfodydd Tîm a rhannu gwybodaeth ynglŷn â chynnydd eich gwaith a'ch dysgwyr
10. Cymryd rhan ymroddgar i'r cyfarfodydd tîm a safoni.
11. Cynllunio rhaglennu eich dysgwyr.
12. Cynnal gweithdai rhithiol ac wyneb yn wyneb, yn ôl yr alw. (Mae'n bosib i'r sesiynau yma cael ei gynnal yn hwyrach yn y prynhawn a gyda'r nos yn ôl yr alw. Bydd amserlen yn cael ei rhannu o flaen llaw.)
13. Ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus a'i chofnodi'n briodol.
14. Hybu sgyrsiau agored gyda dysgwyr ar amryw o bynciau a'i gyfeirio at adnoddau pellach.
15. Ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol gan eich Rheolwr yn ôl y galw.
16. Gweithio o fewn Cod Ymarfer y Cyngor Gweithlu Addysg.
17. Gweithredu mewn modd sydd yn hybu lles, iechyd meddwl a corfforol iach a datblygiad proffesiynol dysgwyr ac aseswyr.

**Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**
**<u>Hanfodol</u>**

- **i.** Profiad a dealltwriaeth cadarn o'r sector gofal plant.
- **ii.** Meddu ar gymhwyster gofal plant lefel 3 neu'n uwch, neu gyda phrofiad cyfwerth.

**iii.** Meddu ar gymhwyster lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol Gysylltiedig neu hen gymwysterau cyfatebol; neu cymhwyster addysgu cydnabyddedig

**iv.** Sgiliau cyfathrebu o'r safon uchaf ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn y Gymraeg a'r Saesneg. (TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg, gradd C neu gymwysterau Sgiliau Hanfodol Lefel 2.)

**v.** Sgiliau technoleg gwybodaeth a ddigidol rhagorol, gyda phrofiad o ddefnyddio rhaglenni Office 365.

**Dymunol**

vi. Profiad o ddefnyddio system OneFile (neu system e-portffolio tebyg)
vii. Profiad o ddatblygu adnoddau dysgu
viii. Profiad o gydweithio gyda chyrff gwobrwyo
ix. Profiad o fentora eraill
x. Profiad o darparu hyfforddant iechyd meddwl

xi. Profiad o ddarparu yn erbyn rhaglenni a ariannir gan Lywodraeth Cymru.
**xii.** Profiad o weithio yn y sector Dysgu Seiliedig ar Waith, Prentisiaethau, Dysgu gydol Oes, neu Addysg Bellach.

**Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus cofrestri fel ymarferydd Dysgu yn y Gweithle gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg yn flynyddol.**
**Disgwyliem i'r ymgeisydd llwyddiannus gweithredu o fewn Cod Ymddygiad y Cyngor Gweithlu Addysg ac o fewn polisïau Urdd Gobaith Cymru.**

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

*xiii. I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
*xiv. Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

**Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad:**

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mawrth 2017 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (**ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Tiwtor / Asesydd Gofal Plant** |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr a Swyddog Sicrhau Ansawdd Gofal Plant |
| **Cyflog:** | G4 |
| **Cytundeb:** | 35 awr, parhaol. |
| **Oriau gwaith:** | Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg. |
| **Lleoliad:** | Amrywiol |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 diwrnod o wyliau blynyddol ac wyth diwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| **Gwiriad GDG:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus profi gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) |
| **Cyngor Gweithlu Addysg:** | Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus cofrestri fel ymarferydd Dysgu yn y Gweithle gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg yn flynyddol. |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| **Yswiriant Bywyd:** | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |